Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# SWYDD DDISGRIFIAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Ieuenctid (Rhan amser) (16 awr | | |
| **Adran** | Pobl a Pherfformiad | | |
| **Lleoliad** | Clwb Bechgyn a Merched Treharris | | |
| **Cyf y Swydd** | | **Dyddiad gwerthuso diwethaf** | 2016 |
| **Pwrpas y Swydd** | Cynllunio a darparu gweithgareddau addas sydd yn ymateb i anghenion addysgol a datblygiadol pobl ifanc nad sydd yn mynychu gwasanaethau ieuenctid cymunedol presennol yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Bod yn gyfrifol am ddarparu maes/arbenigedd penodol mewn gwaith ieuenctid a chymunedol, mewn partneriaeth â chydweithwyr er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol ledled y fwrdeistref. | | |
| **Prif Dasgau** | Cyflenwi rhaglen gytunedig ynghylch dysgu anffurfiol mewn amrywiaeth o leoliadau i unigolion neu grwpiau o blant a phobl ifanc a ble y bo’n bosibl darparu cyfle i achredu’r hyn maen nhw’n eu cyflawni.<br><br>Darparu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer Pobl Ifanc gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau corfforol, gemau tîm a heriau a gweithgareddau celf a chrefft.<br><br>Cynorthwyo i ddatblygu rhaglenni a fydd yn darparu cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc a fydd yn gwella eu cyfleoedd o oresgyn trallod a allai amharu ar eu datblygiad personol a’u cyflawniad addysgol.<br><br>Cynorthwyo wrth gefnogi ysgolion i gyflenwi rhaglenni dysgu penodol sy’n sefyll ar y fframwaith cymhwyster i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddatgysylltiedig oddi wrth addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) e.e Gwobr Dug Caeredin, YAA<br><br>Cynorthwyo i ddarparu Cynllun Gwobr Dug Caeredin, gan gynnwys hyfforddi hirdeithiau ac asesu.<br><br>Gweithio â phlant a phobl ifanc o grwpiau a dangynrychiolir i’w cefnogi a’u galluogi drwy amrywiaeth o gyfleoedd personol, cymdeithasol a dysgu i gael yr hyder i integreiddio i mewn i ddarpariaethau a digwyddiadau’r brif ffrwd.<br><br>Defnyddio offer priodol er mwyn cynllunio’n effeithiol, diwallu anghenion nodau’r sefydliad a mesur effaith gaiff yr ymyrraeth honno ar ddatblygiad cymdeithasol a phersonol pobl ifanc. | | |

| | |
|---|---|
| | Cael adborth oddi wrth bobl ifanc a phartneriaid er mwyn adlewyrchu ar ymarfer, adolygiad a gwerthuso gan felly wella perfformiad yn barhaus.<br><br>Sicrhau fod pobl ifanc yn cael eu cynnwys a'u hymgynghori wrth gynllunio'r rhaglen a'u bod yn ymgysylltiedig â'r broses o wneud penderfyniadau.<br><br>Galluogi pobl ifanc i sefydlu a chynnal cysylltiadau â fforymau yn enwedig Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful, cynghorau ysgolion ac annog Pobl Ifanc i gael eu cynrychioli ar Fforymau Cenedlaethol.<br><br>Cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad at wybodaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau ac adrannau eraill i ddarparu cyfleoedd i wella datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgiadol pobl ifanc. Sicrhau bod defnydd effeithiol a da o adnoddau yn cael ei wneud yn y gymuned.<br><br>Cynorthwyo i ddarparu adroddiadau rheolaidd a data ystadegol am ddatblygiad a chynnydd y ddarpariaeth a'r mewnbwn data ar y system MIS.<br><br>Cynorthwyo wrth ddynodi adnoddau perthnasol i gefnogi cyflenwi cwricwlwm cytbwys am gyfleoedd a gweithgareddau dysgu, oddi fewn i'r adnoddau cytunedig neu'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Sicrhau fod arferion gwaith yn ddiogel, gan gadw at bolisi, gweithdrefnau ac arferion diogelu iechyd a diogelwch CBSMT.<br><br>Cwblhau'r prosesau a'r gweithdrefnau gweinyddol angenrheidiol a gweithio'n effeithiol tuag at ddyddiadau cau a rhoi adborth a mynychu'r holl gyfarfodydd perthnasol.<br><br>Cyfranogi'n bersonol o leiaf dwywaith y flwyddyn mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Cwblhau unrhyw dasg arall fel yr ystyrir sy'n briodol i rôl ran amser gweithiwr ieuenctid, yn ôl cyfarwyddyd yr Uwch Weithiwr Ieuenctid a'r Swyddog Cymunedol. |
| **Adnoddau**<br>*Eitemau sy'n bersonol atebol i ddeiliad y swydd Hynny yw arian parod / offer / peiriannau / stoc / deunyddiau adeiladu* | Dim |
| **CYFRIFOLDEB** | |
| **Am Bobl** | Dim |
| **Am Gyllid** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebiadau** | Rhaid meddu ar brofiad o ddarparu hyfforddiant a gweithdai gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc a rhoi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau cyngor i Bobl Ifanc a hynny'n glir a chryno. |
| **Gwneud penderfyniadau** | Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan bwysig o dîm. |
| **GOFYNION PERSONOL**<br>*Nodwch yma unrhyw amlygiad na ellir ei osgoi o ran risg o niwed i'r corff neu'r meddwl* | |
| **Meddyliol** | Meddu ar ddealltwriaeth o'r prif broblemau sydd yn effeithio ar fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas heddiw.<br><br>Dealltwriaeth o faterion sydd yn ymwneud ag anabledd (grymuso, dewis, eiriolaeth.)<br><br>Arddangos y gallu i weithio mewn amgylchedd nad sydd yn gwahaniaethu ac yn gorthrymu.<br><br>Yr amynedd a'r gallu i beidio â cholli limpyn mewn sefyllfaoedd heriol. |
| **Corfforol** | Rhaid bod yn gymharol ffit a'r gallu i sefyll neu gerdded ac arwain gweithgareddau chwaraeon a chorfforol am hyd at 3 awr. |

| **MANYLEB Y PERSON** | | |
|---|---|---|
| | Angenrheidiol | Dymunol |
| **Cymwysterau ffurfiol** | Lefel 1 yr Iaith Gymraeg.<br><br>Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol gwych â phobl ifanc a phartneriaid.<br><br>Arddangos sgiliau ysgrifennu adroddiadau a gwerthuso da.<br><br>Dealltwriaeth o bolisïau a deddfwriaethau pwysig sydd yn ymwneud â gweithio â phobl ifanc.<br><br>Gallu i osod blaenoriaethau a chyflawni ffiniau amser.<br><br>Y gallu i ymdrin yn effeithiol â sefyllfaoedd ac unigolion heriol.<br><br>Y gallu i arwain drwy esiampl, bod yn gallu ysgogi yn cynnwys y gallu i ddangos empathi, datblygu perthnasoedd cadarnhaol drwy ymddiriedaeth a gonestrwydd.<br><br>Unigolyn hawdd ymwneud ag ef. | Profiad o gynorthwyo pobl ifanc trwy ddulliau lleoliad y stryd i wasanaethau.<br><br>Profiad o weithio â phobl ag anghenion dysgu/awtistiaeth ac ati.<br><br>Profiad o weithio â phobl ag anghenion cymhleth/ ymddygiadau heriol gan gynnwys ymddygiadau sydd yn tramgwyddo.<br><br>Y gallu i siarad y Gymraeg yn rhugl. |

| | | |
|---|---|---|
| | Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol, yn wythnosol ac ar benwythnosau.<br><br>Meddu ar drwydded yrru. | |
| **Sgiliau technegol gofynnol** | Gwybodaeth weithiol o TG a'i ddefnydd yn y gweithle.<br><br>Cwrs Sylfaen mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol neu NOCN Lefel 3 mewn Gwaith Ieuenctid neu gymhwyster lefel 3, gyfatebol.<br><br>Ymrwymedig i ymgymryd â rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | Gradd mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol. |
| **Profiad gofynnol** | 2 flynedd o brofiad blaenorol o weithio â phobl ifanc. | |
| **Priodoleddau gofynnol** | Profiad o hwyluso, darparu, monitro a gwerthuso rhaglen o gyfleoedd dysgu ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Profiad o ddarparu cyfleoedd sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant | |
| **Gofynion arbennig (h.y. gyrru car)** | Mae'r gallu i yrru yn angenrheidiol. | Meddu ar drwydded gyrru bws mini (D1) |
| **Arwyddwyd gan y Rheolwr** | | |
| **Arwyddwyd gan Bennaeth yr Adran** | | |
| **Dyddiad** | | |

## PECYN RECRIWTIO A GYNIGIR

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Gweithiwr Ieuenctid (Rhan amser) 16 awr |
| **Adran:** | Pobl a Pherfformiad, Gwasanaeth Ieuenctid |
| **Cyflog blynyddol gros, sylfaenol:** | £11,113.47 |
| **Rhagor o wybodaeth** | Am drafodaeth anffurfiol ynghylch y swydd, cysylltwch â<br><br>Nigel Sheppard Rhif Ffôn: 07703356554 |

| | |
|---|---|
| **Oriau gwaith:** | Hyblyg, tair sesiwn gyda'r nos, pob wythnos |
| **Lleoliad:** | Clwb Bechgyn a Merched Treharris |
| **Amodau arbennig:** | Mae'n rhaid bod yn gymharol ffit a gallu sefyll neu gerdded am hyd at 3 awr, gwneud gweithgareddau oddi ar y safle, ymgysylltu â Phobl Ifanc heriol mewn modd diffwdan ac effeithiol. |

***Nodwch ei fod yn ofyniad hanfodol i bob un a benodir yn allanol ar ôl 1 Ebrill 2021 fod wedi cymhwyso yn Lefel 1 Cymraeg (o leiaf) a'i fod yn gallu darparu tystiolaeth i gefnogi hynny. Ni fydd ymgeiswyr sy'n methu â gwneud hynny'n gallu dechrau ar eu safle gyda'r Awdurdod.***